

Coedwig Clocaenog Forest

Croeso i Goedwig Clocaenog

Croeso i'r goedwig enfawr hon sydd yr un maint â 10,000 o gaeau rygbi (100 cilometr sgwâr). Mae wedi'i lleoli ym mhen deheuol gweunydd Hiraethog, a chafodd ei phlannu yn y 1930au. Er ei bod yn goedwig weithredol, mae hi bellach yn gartref i amrywiaeth eang o fywyd gwyllt, yn ogystal â bod yn lle y gall pobl ei fwynhau.

Wydddech chi fod gan Clocaenog fwy o wiwerod coch nag unrhyw goedwig arall yng Nghymru? Ond rhaid ichi fod yn lwcus iawn i weld un, oherwydd maent ar wasgar dros ardal eang ac yn greaduriaid eithaf swil.


Mae grugieir duon prin, sy'n enwog am eu campau carwriaethol, yn byw ar gyrion y goedwig. Mae gweithio'n agos gyda'r RSPB wedi arwain at gynydd o 88% yn nifer yr adar.

Welcome to Clocaenog Forest

Welcome to this huge forest which is the size of 10,000 rugby pitches (100km²). It lies at the southern end of Hiraethog Moor and was first planted in the 1930s. Although still a working forest, it is now a home for a wide variety of wildlife, as well as for people to enjoy.

Did you know that Clocaenog has more red squirrels than any forest in Wales? You will be very lucky to see one as they range over large areas and are quite secretive.

Rare black grouse, known for their flamboyant courtship display, known as a 'lek', live on the forest edge. Working closely with the RSPB has led to an 88% increase in bird numbers.



Croeso i Efail y Rhidyll


Croeso i goetir Efail y Rhidyll, rhan o hen ystâd enfawr Pool Park y teulu Bagot.

Yn wreiddiol roedd yr ardal yn un o bump o barciau ceirw a ddefnyddid gan berchnogion Castell Rhuthun ar gyfer hela.

Welcome to Pool Park

Welcome to Pool Park woodland on the edge of Clocaenog Forest.

It is named after the former huge Pool Park Estate, owned by the Bagot family. The area was originally one of five deer parks used by the owners of Ruthin Castle for hunting.



Llwybr Efail y Rhidyll Pool Park Walk

Dilynwch yr arwyddbyst gwyrdd
Follow the green waymarker symbol

Hawdd
Pellter: 1 milltir/1.5km
Amser: 30 munud
Dringo: 50m

Easy
Distance: 1 mile/1.5km
Time: 30 minutes
Climb: 50m

UCHAFBWYNTIAU: Chwiliwch am y ffynidwydd Douglas anferth sy'n ffynnu yma a'u moch coed cwbl arbennig ar y ddaear. Yn ôl un stori mae'r tri darn pigog - sef y 'bractiau' - sy'n hongian allan o'r moch coed yn cynrychioli coesau ôl a chynffon llygoden, sy'n cuddio rhag tân yn y goedwig.

Mae taith gerdded fer yn ddelfrydol i dorri siwrnai i ymestyn eich coesau neu i fynd â'r ci am dro bach byr.

HIGHLIGHTS: Look for the huge Douglas fir trees which thrive here and their very distinctive cones on the ground. One story has it that the three pointed bits known as 'bracts' hanging out of a cone represent the back legs and tail of a mouse, hiding from forest fires.

A short walk is ideal for breaking a journey to stretch your legs or for a quick stroll with your dog.